

CYNGOR BRO LLANGELER-29:09:2014

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Medi 29ain 2014 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **09/14 PRESENNOL:** Cynghorwyr. Adrian Thomas[Cadeirydd], Jamie Ayres, Ian Davies, Delyth Evans, Brenda Jones, Christopher Jones, Mary Phillips, Marc Rees, Caroline Roberts, Dilwyn Smith, John Wigley. Clerc – Stella Jones
HEFYD YN BRESENNOL: Cyfieithydd ac aelod o'r cyhoedd.
2. **09/14 HEDDLU:** Anrhefn llwyr ym mhentref Felindre gyda'r cwmni sy'n gweithio ar osod y newidydd ger yr hen doiledau – Clerc i ofyn i'r heddlu ddod i gael golwg ar y sefyllfa. Bws Richards wedi teithio'n gyflym drwy bentref Felindre – Clerc i ysgrifennu i'r cwmni.
3. **09/14 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. John Crossley, Nesta Jones, Cyng.Sir - K Howell, Heddlu
4. **09/14 COFNODION :** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Gorffennaf 28ain 2014 a'u cael yn gywir.
Cynigydd – Cyng. J Wigley
Eilydd – Cyng. D Smith
5. **09/14 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Dim
6. **09/14 MATERION YN CODI :**
11.i.06/14. Arwydd Cyflymder i Felindre – dyddiad i'w gadarnhau ar gyfer ymweliad safle.
12.i.01/14. b) 'Audio Trail' – mae'r system bron yn barod, y darllen olaf dros y sgript yn cymryd lle nawr. Gwasg Gomer fydd yn argraffu.
7. **09/14 GOHEBIAETH:**
 - i. CSG – Cyfleusterau Cyhoeddus Parc Puw – llythyr i nodi bydd y cyfleusterau yn cau ar y 1af o Hydref 2014
 - ii. CSG – Addurniadau Nadolig – Clerc wedi llenwi'r ffurflen gais
 - iii. e-bost – Cronfeydd wrth gefn Swyddfa Archwilio Cymru – llythyr i nodi bod taliad o £30 i goffrau'r Cyngor.
 - iv. e-bost –ULIC - Cyngor Defnyddwyr Dŵr eiriolwyr-defnyddwyr-lleol yng Nghymru – cylchlythyrwyd a nodwyd
 - v. e-bost – ULIC – Rhaglen Hyfforddi 2014 – cylchlythyrwyd a nodwyd
 - vi. Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed – ymateb i'r llythyr ynghylch gor dyfiant coed ger Bryngwyn, gwnaed ymweliad safle gyda swyddog o'r Cyngor Sir
 - vii. e-bost – Bwletin Rhanbarthol - Simon Thomas AC – cylchlythyrwyd
 - viii. Western Power – Tystysgrif o Gyflenwad Difesur Dros dro – Clerc i lenwi ffurflen
 - ix. Menter Gorllewin Sir Gâr – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 29/09/14, Hendygywyn ar daf. – cylchlythyrwyd a nodwyd

8. 09/14 CYNLLUNIO

CEISIADAU CYNLLUNIO – YMGYNGHORI

W/30152 – Gwybodaeth taw gosod dwy garafan dros dro yw cyfnod o 2 flynedd fel cartrefi i'r gweithwyr

Caniatâd

W/29269 - WCS Environmental & Building Maintenance, Station Yard, Pontwelly SA44 4AR - sied storio offer a cherbydau mewn lle diogel a ffens perimedr i'r cyn farchnad wartheg a iard lo.

W/29803 – S Street, Cryngae, SA44 5YW – newid defnydd o adeilad dianghenraid i ffurfio gosod tŷ gwyliau.

W/30273 – Mr A Jones – datblygiad arfaethedig o ddau dy ar dir ger Llys Puw, Drefach Felindre

W/30318 – Steve Clarke, Old Post Office, Pentrecwrt, SA44 5AU – newid defnydd o Swyddfa Post afraid gyda tŷ byw i anheddle sengl

Cais Ymgynghori llawn

W/30686 - Matthew Broome, West Wales Trails Ltd, Land at Pen-y-Banc Farm, Velindre SA44 5XE - datblugu canolfan sgiliau beiciau mynydd a chanolfan hyfforddi. Dyma'r cyntaf o'i fath yng Nghymru. Ar gyfer y datblygiad mae angen newid defnydd o 1 erw(0.4 hectar) o dir amaethyddol. Bydd hwn yn cael ei ffensio arwahan o'r tir arall ond fe ddefnyddir yr un hewl – *dim gwrthwynebiad*

W/30687 - Penybont(gyferbyn ag Alltcafau), Pentrecwrt, Llandysul SA44 5BD - ail-luniad o'r bwthyn(gwelliant o ganiatad cynllunio W/17847) – *dim gwrthwynebiad*

W/30863 – Miss Leah Slaymaker, plot wrth ymyl Llety Clud, Saron SA44 5ED, adeiladu tŷ sengl – *dim gwrthwynebiad*

W/30866 – Jeffrey Thomas, Plot ger Maeswthan, Saron SA44 5DX – Plot ar gyfer annedd-dy – *dim gwrthwynebiad*

W/30899 – Skanda Vale Hospice, Saron, SA44 5DY – newidiadau arfaethedig i'r cynllun a ganiatwyd i cynllun W/28516 – *dim barn*

9. 09/14 MATERION ARIANNOL

a. Anfonebau

- i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 29/09/2014£90.30
- ii.HIRIO NEUADD YR EGLWYS, PENBOYR – cyfarfod 29/09/14 £7.00
[caniatad i dalu'r ddau uchod feldaw'r taleb fewn]
- iii. CLIAND COMPUTERS – Gluniadur.....£374.00 + Microsoft Office.....£166.67 + VAT£108.33.....£649.99
- iv. DELWYN JONES – atgyweirio mainc Pwllmarl a golchi'r byrddau llwybrau gwlan.....£120.00

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

Arian yn y Banc ar 11/09/2014.....£24,462.28

b. Credyd

Praesept£9,928.00
Cronfeydd wrth gefn Swyddfa Archwilio Cymru£30.00

c. Cais am Gefnogaeth Ariannol

Dim

ch) Derwen Lighting Ltd – **Dyfnbris** am atgyweirio braced golau Nadolig£496.37

10. 09/14 ADRODDIAD PWYLLGOR

Is bwyllgor trefnu Sul y Cofio - is bwyllgor i gyfarfod i wneud trefniadau ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio ar 9/11/14 – cytunwyd ysgrifennu i'r gwahanol bwyllgorau a chymdeithasau yn y plwyf i'w gwahodd i anfon cynrychiolwyr i osod torch neu groes yn y gwasanaeth yn Eglwys St Barnabas, Felindre. Yr Is bwyllgor i gwblhau trefniadau'r gwasanaeth.

11. 09/14 MATERION ANGEN TRAFODAETH

- i. Cadwyn y Cadeirydd – dwedodd Cyng J Wigley byddai ganddo syniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf.
- ii. Cofio'r Rhyfel Byd 1af – gweler yr adroddiad uchod, eitem 10.
- iii. Ffyrdd o Godi Arian i Bwyllgor Parc - cytunwyd y dylid gwahodd cynrychiolwyr o'r ddau barc i gyfarfod y Cyngor ond nid oedd y cynrychiolwyr yn bresennol.

12. 09/14 SYLWADAU'R CYNGHORWYR:

- i. Cyng B Jones – dwedodd bod eisiau torri'r clawdd sy'n gorchuddio'r arwydd STOP.
- ii. Cyng D Evans – gor dyfiant o goed o Rhydfach i Geler Lodge - Cyng K Howell i ddelio â'r mater.
- iii. Cyng J Wigley – a) angen mynd ar ôl y Cyngor Sir eto am y gwaith sydd angen ei wneud ger Meysydd.
b) golau stryd ger Penrallt dal ymlaen yn ystod y dydd
c) nododd bod dŵr rhyfeddaf wedi casglu ar yr hewl ger Dolhaidd yn dilyn cawad drwm o law – gofyn i Cyng K Howell ddelio â'r mater.
- iv. Cyng A Thomas – bod angen arwydd pen arall i'r llwybr sy'n cychwyn o'r hen orsaf i ddweud ei fod ar gau gan fod rhai rhannau ohono yn beryglus – Clerc i gysylltu a Mat Murray CSG.

CYFARFOD NESAF

Cynhelir y Cyfarfod Misol nesaf Nos Lun, Hydref 27ain 2014, am 7.30y.h yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 y.h

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad